

Cynllun Archwilio 2022 – Cronfa Bensiwn Dyfed

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2984A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan hwn ei hun unrhyw swyddogaethau.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, phan fo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

Crynodeb 4

Effaith COVID-19 4

Archwilio cyfrifon y gronfa bensiw 4

Ffi, tîm archwilio ac amserlen 5

Cynllun Archwilio 2022

Crynodeb

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio i archwilio ac ardystio a yw datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa Bensiwn) 'yn wir ac yn deg'.
- 2 Diben y cynllun hwn yw nodi fy ngwaith arfaethedig, pryd y caiff ei wneud, cost y gwaith a phwy fydd yn ei wneud.
- 3 Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Effaith COVID-19

- 4 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- 5 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

Archwilio cyfrifon cronfa pensiwn

- 6 Mae'r gwaith archwilio rwy'n ei wneud i gyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i fy asesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i ni ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol wrth roi sicrwydd i gyfrifon y Gronfa Bensiwn yn gyffredinol.
- 7 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu cyn cwblhau'r archwiliad.
- 8 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (a osodwyd ar berthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 9 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

Risgiau archwilio ariannol

- 10 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u nodi ar gyfer archwilio cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

Arddangosyn 1: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau archwilio ariannol allweddol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad.

Risg archwilio	Ymateb archwilio arfaethedig
Risgiau arwyddocaol	
Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].	Byddwn yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb y cofnodion yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd; a• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol

Swyddogaethau archwilio statudol

- 11 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gen i gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
 - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad
- 12 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi cynnwys ffi amcangyfrifedig yn **Arddangosyn 2** isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

- 13 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen i'w chytuno, gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwylidig ac wedi eu hadolygu'n gadarn i sicrhau ansawdd;
- mae'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen allbynnau archwilio y cytunwyd arni;
- darperir llety a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf; ac
- mae rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

Ffi

- 14 Fel y nodwyd yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% ar gyfartaledd, o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus mewn ansawdd archwilio ac mewn ymateb i bwysau cost cynyddol.
- 15 Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2022 yn **Arddangosyn 2**. Mae hyn yn gynydd o 11.2% (£3,171) o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol ar gyfer 2020. Mae rhan o'r cynnydd hwn o ganlyniad i'r cynnydd o 3.7% mewn cyfraddau ffioedd ar draws yr holl archwiliadau fel y nodir uchod (sef cyfanswm o £1,047). Mae'r gweddill o £2,124 (7.5%) wedi'i symud o brif ffi Cyngor Sir Caerfyrddin i adlewyrchu'n well gost y gwaith sydd ei angen ar bob archwiliad. Adroddir ar hyn yng Nghynllun Archwilio Cyngor Sir Caerfyrddin. Effaith net hyn yw bod y ffioedd ar draws y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn wedi cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn cyfraddau ffioedd yn unig.

Arddangosyn 2: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

Maes archwilio	Ffi arfaethedig (£) ¹	Ffi wirioneddol y llynedd (£)
Archwilio cyfrifon y gronfa bensiwn ²	31,465	28,294

¹ Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir hyn arnoch

² Yn daladwy o fis Tachwedd 2021 hyd at fis Hydref 2022.

- 16 Bydd cynllunio'n barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod yn gyntaf gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.
- 17 Mae rhagor o wybodaeth am fy nggraddfeydd ffioedd a gosod ffioedd ar gael ar ein gwefan.

Y tîm archwilio

- 18 Crynhoir prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

Enw	Swyddogaeth	Rhif cyswllt	Cyfeiriad e-bost
Richard Harries	Arweinydd Ymgysylltu	07789 397018	richard.harries@audit.cymru
Jason Blewitt	Rheolwr Archwilio (Archwiliad Ariannol)	07970 737478	jason.blewitt@audit.cymru
Anwen Deilwng	Arweinydd Archwilio (Archwiliad Ariannol)	02920 320629	anwen.worthy@audit.cymru

Amserlen

- 19 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 4**. Fel y nodwyd yn gynharach, efallai y bydd angen adolygu'r amserlen yng ngoleuni datblygiadau gyda COVID-19.

Arddangosyn 4: amserlen archwilio

Allbwn arfaethedig	Gwaith wedi'i wneud	Adroddiad wedi'i gwblhau
Cynllun Archwilio 2022	Ionawr - Mai 2022	Mai 2022
Archwilio cyfrifon y gronfa bensiw: <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol• Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mai - Hydref 2022 Hydref 2022	Hydref 2022 Hydref 2022

- 20 Gallwn gadarnhau bod pob aelod o'r tîm yn annibynnol arnoch chi a'ch swyddogion. Yn ogystal, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw ato.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.